

Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu Y Sector Manwerthu 6 Chwefror 2024

Holi ac Ateb

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Sector Hamdden ac Adloniant. Rydym wedi grwpio'r cwestiynau hyn yn ôl thema, weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Cod Ymarfer – [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](#)

[Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd \(wrapcymru.org.uk\)](#)

Cwestiwn	Ateb
Pryd fydd y canllawiau penodol ar gyfer sectorau unigol fyw ar wefan WRAP Cymru os gwelwch yn dda?	Mae'r saith canllaw sector ar gael ar wefan y Busnes o Ailgylchu – Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)
Biniau	
A fydd cynghorau yn diweddarau biniau allanol y maent yn berchen arnynt (yn benodol y tu allan i siopau adwerthu) i fodloni'r rheoliadau newydd hyn?	<p>Biniau sbwriel Nid yw rheoliadau ailgylchu yn y gweithle yn berthnasol i finiau sbwriel awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er mwyn arddel dull cyson ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae biniau sbwriel wedi'u lleoli fel y gall Awdurdodau Lleol, pan bynnag y bo modd, drefnu i sbwriel gael ei ailgylchu.</p> <p>Biniau gwastraff masnachol Os yw'r biniau ar gyfer casgliadau masnachol o weithleoedd yna byddant – byddant yn cael eu newid i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd ynghyd â'r gofynion casglu ar wahân.</p>
Mae gennym finiau yn ein meysydd parcio ac mewn gorsafoedd petrol. A oes disgwyl i ni gael biniau ailgylchu ar yr holl bwyntiau hyn?	<p>Mae'n ofynnol i bob gweithle gyflwyno'r deunyddiau rhestredig ar wahân i'w hailgylchu. Mater i bob gweithle yw penderfynu sut y gallant wahanu'r deunyddiau hyn yn fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, gall cael biniau ailgylchu wrth ymyl biniau sbwriel fod yn ffordd dda o wneud hyn.</p> <p>Ni fyddai casglu'r holl wastraff mewn bin sbwriel gweddilliol a gwneud unrhyw ymdrech i wahanu'r deunyddiau gofynnol ar gyfer ailgylchu yn cyd-fynd â'r rheoliadau newydd</p>
Beth os yw ein hôl troed blaen tŷ yn rhy fach i gadw cymaint o finiau ag sydd eu hangen?	Mater i bob gweithle fydd penderfynu ar y cyfluniad gorau ar gyfer biniau yn dibynnu ar

Cwestiwn	Ateb
	<p>faint a math o ddeunyddiau a gynhyrchir a'r gofod sydd ar gael.</p> <p>Ar gyfer lleoedd cyfyngedig, mae opsiynau i gael biniau pentyrru nad ydynt yn cymryd llawer mwy o le nag un bin.</p> <p>Nid yw'r Rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfluniadau biniau – dim ond ar y pwynt cyflwyno y mae angen gwahanu (cyfeiriwch at baragraffau 7.14 – 7.16 yn y Cod Ymarfer)</p>
Cyfathrebu	
<p>Pa gamau sy'n cael eu cymryd i hysbysu cwsmeriaid am y newid hwn? Gallwn osod y biniau ond os nad ydynt yn defnyddio neu'n gwybod sut i'w defnyddio</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar draws y cyfryngau gan gynnwys hysbysebion radio. Bydd hefyd yn ofynnol i weithleoedd ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr unwaith y bydd y system newydd yn ei lle.</p>
<p>Mae'r templed PowerPoint ar y wefan yn Gymraeg yn unig, a allech chi ychwanegu fersiwn Saesneg os gwelwch yn dda?</p>	<p>Testun dalfan mewn Lladin sydd ar y PowerPoint.</p> <p>Gwneir hyn fel nad oes dim yn cael ei adael i mewn yn anfwriadol wrth gael ei ddefnyddio.</p>
<p>A fyddwch chi'n rhannu dogfen Cwestiynau Cyffredin?</p>	<p>Unwaith bydd y gweminarau hyn wedi'u cwblhau, byddwn yn edrych ar lunio rhestr o Gwestiynau Cyffredin a'u rhannu ar y wefan. Rydym hefyd yn ymateb i bob cwestiwn o'r gweminarau ar y wefan.</p> <p>Os oes gennych gwestiynau pellach, anfonwch e-bost at walesrecycles@wrap.org.uk</p>
<p>Gan nad oes lefel goddefiant diffiniedig ar gyfer halogiad beth sy'n digwydd os bydd swyddog gorfodi'n ystyried bod yr halogiad yn rhy uchel ond y casglwr gwastraff ddim yn meddwl hynny?</p>	<p>Ein cyngor ni yw siarad â'ch casglwr gwastraff am lefelau derbyniol o halogiad (os o gwbl). Pe bai'r sefyllfa a ddisgrifiwyd yn codi (sy'n ymddangos yn annhebygol) ac y gallai gweithle ddangos ei fod yn cymryd mesurau rhesymol i reoli lefelau halogiad, byddai'r cwestiynau'n cael eu cyflwyno wedyn i'r casglwr i egluro ei ddull gweithredu.</p>
<p>A yw'r dirwyon sy'n cael eu gorfodi yn gysylltiedig â ph'un a oes gennych chi'r opsiwn ar gyfer gwahanu ai peidio, yn hytrach na'r hyn sydd yn y bin?</p>	<p>Mae'r dirwyon am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau, sef, yn achos cynhyrchydd gwastraff, methu â chyflwyno'r gwastraff penodedig ar wahân i'w gasglu. Bydd y rheolyddion yn edrych i weld pa gamau sy'n cael eu cymryd i gydymffurfio â'r gofynion a byddant yn darparu cyngor a chefnogaeth i wella cydymffurfiaeth yn y lle cyntaf.</p>
<p>Beth os caiff y gwastraff ei brosesu yn Lloegr ar gyfer safleoedd yng Nghymru?</p>	<p>Cyfeiriwch at y rhestr Holi ac Ateb ar gyfer Casglwyr Gwastraff</p>

Cwestiwn	Ateb
Cwpanau	
Pe bai cwpan goffi wedi'i ddefnyddio a fyddai hyn yn mynd yn wastraff cyffredinol neu'n un o'r ffrydiau ailgylchu?	Byddai, mae'n rhaid ei wahanu ar gyfer ailgylchu.
Cwpanau coffi – pa rai sy'n addas ar gyfer y ffrwd plastigau/caniau/cartonau os gwelwch yn dda?	Gellir cyflwyno cwpanau diodydd papur gyda haenen blastig polythen neu polypropylen dwysedd isel yn yr un ffrwd â metelau a phlastigau. Dylech wirio gyda'ch casglwr gwastraff sut yr hoffai i'r deunyddiau hyn gael eu casglu.
A allwch chi egluro'r canllawiau ar gwpanau coffi? Roeddwn i'n meddwl bod yn rhaid casglu'r rhain ar wahân?	Bydd yn rhaid rhoi unrhyw gwpanau sydd wedi'u gwneud â haenau compostadwy neu fioddiraddadwy yn y bin gwastraff cyffredinol. Bydd angen i gwmnïau gwastraff gyflwyno'r galluoedd gwahanu hyn os nad oes ganddynt rai eisoes.
Cwpanau coffi nad oes modd eu compostio – a ddylen nhw fynd i'r bin plastig, metel, neu gartonau os oes biniau ar wahân wedi'u darparu ar gyfer y ffrydiau gwastraff hynny?	Mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn ei gwneud yn ofynnol i gartonau a chwpanau gael eu gwahanu i'w hailgylchu. Gellir eu cyflwyno ar wahân i'w casglu â metel a phlastig ac ni ellir eu cymysgu ag unrhyw beth arall. Fodd bynnag, gellir eu casglu ar wahân, ac mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn glir y caniateir mwy o wahanu.
Rydym wedi siarad â'n casglwyr gwastraff; nid ydynt yn gwybod am MRF yng Nghymru a all ymdrin â chwpanau coffi	O dan reoliadau newydd ledled y Deyrnas Unedig, mae cynllun dychwelyd cwpanau i fod i ddechrau yn 2025. Cynllun newydd i ddychwelyd cynhwysyddion diodydd erbyn 2025 yn helpu Cymru i wella ei chyfraddau ailgylchu ymhellach LLYW.CYMRU
A fydd manwerthwyr yn dal i fod dan orfodaeth dan y rheoliadau dychwelyd cwpanau gorfodol newydd sy'n dod yn 2025 i orfod tynnu cwpanau o'r ffrwd gymysg plastig, carton a chwpan er mwyn eu cadw ar wahân?	Ni fydd gwrthdaro â gofynion y cynllun dychwelyd cwpanau, gan y bydd bin ar wahân ar gyfer cwpanau (yn unol â'r cynllun dychwelyd) hefyd yn cydymffurfio â gofynion gwahanu yn y Gweithle ar gyfer Cymru.
Cwsmeriaid	
A yw'r rheolau newydd hyn yn berthnasol i gwsmeriaid manwerthu (ymwelwyr)?	Mater i bob gweithle fydd penderfynu ar y cyfluniad gorau ar gyfer biniau yn dibynnu ar faint a math o ddeunyddiau a gynhyrchir a'r gofod sydd ar gael.
A oes angen arddangos biniau i gwsmeriaid neu a all staff fynd â'r deunyddiau a'u rheoli yng nghefn y storfa i helpu i leihau halogiad?	Fodd bynnag, bydd angen i chi ddangos sut yr ydych yn gweithio i fodloni'r gofynion a'ch bod
Beth yw'r gofynion gwirioneddol ar gyfer biniau cwsmeriaid mewnol ac allanol?	

Cwestiwn	Ateb
<p>A ellir gosod y biniau ar ôl y pwynt til os oes angen? Neu a oes rhaid iddynt fod yn hygyrch i gwsmeriaid heb gerdded drwy'r siop?</p>	<p>yn monitro effeithiolrwydd y systemau yr ydych wedi'u rhoi ar waith.</p>
<p>A yw'n ofynnol i fusnesau manwerthu hefyd blismona unrhyw gynwysyddion allanol sydd ganddynt, sydd wedyn yn cael eu symud i'r prif gynwysyddion yn barod i'w casglu?</p>	<p>Os oes gennych finiau ar hyn o bryd mewn lleoliadau sy'n delio â chwsmeriaid, yna bydd, mi fydd angen i chi nawr naill ai ddarparu biniau ar wahân ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff penodedig neu sicrhau bod yr hyn a gesglir yn cael ei ddioli i'r ffrydiau gwastraff penodedig cyn ei gasglu.</p>
<p>Fel busnes ai dim ond cefn tŷ yw hyn – gwastraff gweithredol a gwastraff cydweithwyr neu a yw hyn yn berthnasol i wastraff cwsmeriaid?</p>	
<p>Os oes gennych fin gwastraff cyffredinol ym mlaen y tŷ lle mae cwsmeriaid yn rhoi'r holl ffrydiau gwastraff ynddo (cerdyn, pecynnau plastig, papur, caniau ac ati) ac nad ydych yn cynnig unrhyw beth arall i gwsmeriaid ei wahanu (e.e. gadael ar fwrdd, biniau ailgylchu) ydych chi fel y busnes sy'n gyfrifol am wahanu'r gwastraff cymysg hwn i'w gasglu?</p>	
<p>Sut bydd y casglwyr gwastraff yn cael eu rheoleiddio i sicrhau bod y gwastraff yn cael ei ailgylchu mewn gwirionedd?</p>	<p>Fel cynhyrchydd gwastraff, mae'n ofynnol ichi gynhyrchu nodyn trosglwyddo gwastraff. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich casglwr gwastraff yn gwneud hyn i chi. Dylech ei wirio'n ofalus i sicrhau bod y disgrifiad o'r gwastraff sy'n cael ei gasglu'n gywir. Ni chaiff eich casglwr gwastraff anfon unrhyw un o'r deunyddiau wedi'u gwahanu i dirlenwi neu losgi. Gallech ystyried gofyn i'ch casglwr gwastraff am dystiolaeth reolaidd o gyrchfannau prosesu terfynol eich deunyddiau a wahanwyd.</p> <p>Gallwch ddarganfod mwy am eich cyfrifoldebau fel cynhyrchydd gwastraff yma: Cyfoeth Naturiol Cymru / Dyletswydd gofal gwastraff i sefydliadau</p>
Gwastraff Bwyd	
<p>A yw'r 5kg ar gyfer gwastraff bwyd yn seiliedig ar wastraff bwyd blynyddol cyfartalog neu os ydych yn mynd dros 5kg mewn unrhyw wythnos?</p>	<p>Mae'r cyfyngiad 5kg o wastraff bwyd yn berthnasol i unrhyw gyfnod o saith diwrnod. Os ydych yn cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd mewn unrhyw gyfnod o saith niwrnod, yna mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno ar wahân i'w gasglu. Os nad ydych yn cynhyrchu mwy na 5kg yr wythnos yna dylid monitro hyn i gyfrif am unrhyw newidiadau ar y safle, er enghraifft cynnydd mewn lefelau staffio neu</p>
<p>Os yw'r adwerthwr ar hyn o bryd yn cludo gwastraff bwyd yn ôl i leoliad canolog yn y rhanbarth, a oes angen biniau bwyd arnom ar y safle o hyd? Gan na fyddai'r rhain byth yn debygol o fod yn ddefnyddiol</p>	

Cwestiwn	Ateb
	fyfyrwyr. Er enghraifft, gallai hyn fod yn gynnydd mewn lefelau staffio neu ymwelwyr.
A ddylem gael biniau ailgylchu yn y gegin?	Oes, os yw ardaloedd cegin lle bydd deunydd pacio a gwastraff bwyd yn cael eu cynhyrchu, yna dylech gael biniau yno
Sut fyddech chi'n cynghori i siopau'n cael gwared ar ddiodydd sydd wedi mynd heibio'u dyddiad? A ellir cael gwared arnynt i lawr y draen ac yna ailgylchu'r botel?	Bydd hyn yn dibynnu ar y swm. Gwiriwch gyda Dŵr Cymru neu Hafren Dyfrdwy – efallai y bydd angen ceisio gorchymyn elifiant masnach. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaharddiad gwastraff bwyd i garthffosydd a diffiniad o fwydydd hylifol, nad yw at y diben hwn yn cynnwys "diod".
Biniau sbwriel mewn manau cyhoeddus	
Os bydd yn rhaid i fanwerthwyr ddarparu biniau ar wahân mewn manau gyrru trwodd a blaen y tŷ, pam nad oes biniau ar wahân mewn manau cyhoeddus a fydd o gymorth i addysgu'r cyhoedd?	Gyda chyflwyniad y gyfraith newydd hon bydd mwy o finiau ailgylchu mewn manau cyhoeddus ac felly bydd dull mwy cyson o ailgylchu yn cael ei roi ar waith ledled Cymru.
Parthed: Biniau ar Gyrtiau Gorsafoedd Petrol – nid oes lle i fwy nag un bin rhwng y prif bympiau. Beth yw'r cyngor?	Rydym yn eich cynghori i sefydlu beth sydd yn y biniau ar hyn o bryd. Os oes deunydd sydd angen ei wahanu, yna bydd angen i chi ddarparu biniau i'w hailgylchu. Gallai hyn fod yn fin hollti neu finiau a ddarperir ar draws y safle. Pa bynnag ddull a ddefnyddir, bydd angen i weithleoedd fonitro effeithiolrwydd a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.
Ar gyfer adwerthwyr sydd â biniau sy'n wynebu cwsmeriaid y tu allan i'r eiddo mewn maes parcio neu fan gyrru trwodd lle gall cwsmeriaid ddod â gwastraff nad yw'n cael ei gynhyrchu ar y safle – a oes disgwyl i ffrwd wastraff gael ei rhoi yn ei lle ar gyfer gwydr hyd yn oed os na chynhigir unrhyw wydr fel cynnyrch gan yr adwerthwr? Hefyd, sut mae disgwyl i'r adwerthwr blismona'r gwastraff mewn biniau allanol ar barciau manwerthu?	
Rydym yn rhedeg bwytaï gyrru trwodd. Sut dylen ni reoli ardaloedd blaen tŷ neu feysydd parcio? Ein nod yw darparu biniau ar wahân yn y man bwyta, ond sut bydd y rheoliadau'n cael eu gorfodi os nad yw cwsmeriaid yn gwahanu'r gwastraff yn gywir?	Rydym yn eich cynghori i gadarnhau beth sydd yn y biniau ar hyn o bryd. Os oes deunydd y mae angen ei wahanu, yna bydd angen i chi weithio allan beth yw'r ffordd orau o'i ddal i'w wahanu. Bydd disgwyl i fanwerthwyr wneud darpariaeth resymol i alluogi cwsmeriaid i ddefnyddio biniau'n gywir (e.e. lleoliad biniau a siâp/math yr agorfa) ond ni fydd disgwyl iddynt ddioli cynnwys pob bin â llaw.

Cwestiwn	Ateb
	Pa bynnag ddull a ddefnyddir, bydd angen i weithleoedd fonitro effeithiolrwydd a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.
Nid yw'r cod ymarfer yn trafod gwastraff cyffredinol cyhoeddus yn llawn – beth yw'r canllawiau ynghylch hyn?	Nid yw rheoliadau ailgylchu yn y gweithle yn berthnasol i finiau sbwriel awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er mwyn arddel dull cyson ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae biniau sbwriel wedi'u lleoli. Gwneir hyn er mwyn i Awdurdodau Lleol, pan bynnag y bo modd, allu trefnu i sbwriel gael ei ailgylchu.
Deunyddiau	
O ran gwydr – a oes canllawiau tebyg ar gyfer gwastraff cartrefi? h.y. os yw gwydr wedi torri yn cael ei roi mewn gwastraff cyffredinol	Oes, am resymau diogelwch
O ran y cartonau, a oes cod plastig penodol sy'n cael ei dderbyn gyda'r metelau a'r rhai nad ydyn nhw?	Mae'r codau resin polymer wedi'u rhestru yng Ngeirfa'r Cod Ymarfer.
Oes rhaid i chi gynnig holl finiau llif gwastraff os nad ydych chi'n cael llif gwastraff h.y. a oes angen i ni gynnig bin gwydr os nad ydym yn disgwyl cael gwydr yn ôl?	<p>Rydym yn eich cyngori i gadarnhau beth sydd yn y biniau ar hyn o bryd. Os oes deunydd y mae angen ei wahanu, yna bydd angen i chi weithio allan beth yw'r ffordd orau o'i ddal i'w wahanu.</p> <p>Os nad oes gwydr yn eich biniau ar hyn o bryd, ni fyddai angen casgliad gwydr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os bydd hyn yn newid (h.y. rydych yn dechrau gwerthu eitemau mewn gwydr neu'n dod o hyd i wydr yn eich biniau) byddai angen ichi wneud darpariaeth ar gyfer gwydr.</p> <p>Pa bynnag ddull a ddefnyddir, bydd angen i weithleoedd fonitro effeithiolrwydd a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.</p>
Dim ond i fod yn glir, beth sydd ei angen ar gyfer dillad ail-law a roddwyd gyda'r tagiau dillad yn dal ynghlwm?	Ymdrinnir â'r pwynt hwn yn y Cod: 4.15 Mae "Heb ei werthu" yn golygu cynnyrch defnyddiwr heb ei ddefnyddio, mewn ffatri, eiddo manwerthu, cyfanwerthwr, warws neu eiddo arall, nad yw wedi'i werthu i ddefnyddiwr neu sydd wedi'i werthu a'i ddychwelyd gan ddefnyddiwr. Nid yw "heb ei werthu" yn cynnwys nwyddau ail law. Fodd bynnag, os yw siop elusen neu siop ail law yn derbyn rhodd o stoc newydd nas defnyddiwyd
Fel Adwerthwr elusen, a allwn gael rhywfaint o eglurder ynghylch sut y dylid prosesu tecstilau heb eu gwerthu? Er ein bod yn gwybod y dylid casglu tecstilau sydd heb eu gwerthu ar wahân, os oes gwaharddiad ar losgi a thirlenwi, yr hyn y disgwylir iddo ddigwydd i decstilau heb eu	

Cwestiwn	Ateb
gwerthu. I ni, gallwn dderbyn tecstilau na ellir eu gwerthu h.y. wedi’u halogi â chemegau neu wedi’u difrodi.	nad yw erioed wedi’i werthu i ddefnyddiwr, yna byddai’r eitemau hynny’n cael eu hystyried yn rhai “heb eu gwerthu”. O ganlyniad i hyn, pe bai siop yn methu â gwerthu eitemau o'r fath ac yn penderfynu cael gwared arnynt byddent yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu.
A oes cyn lleied â phosibl o wastraff gwydr gan mai dim ond ychydig o eitemau wedi torri fyddai gennym	Nid oes isafswm cyfeintiau i'w casglu. Efallai y bydd modd trefnu casgliad ad hoc ar gyfer meintiau bach o ddeunydd. Cyfeiriwch at Atodiad 1 yn y Cod Ymarfer am y rhestr o wydr y mae angen ei wahanu i'w gasglu.
A yw pob math o blastig h.y. caled a meddal? Yn mynd i’r un bin?	Mae rhestr lawn o’r mathau o ddeunyddiau i’w casglu ym mhob ffrwd ddeunydd wedi’u manylu yn atodiadau’r Cod Ymarfer Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân i’w Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru llyw.cymru
rydym yn gweithio gyda darparwr gwastraff sy'n cymryd DMR – gwastraff Ailgylchu Cymysg Sych o gefn y tŷ. a yw hyn yn dal i gydymffurfio â'r gyfraith	Na, ni fydd casgliadau ailgylchu cymysg sych yn cael eu caniatáu mwyach o dan y rheoliadau newydd. Rhaid cyflwyno'r deunyddiau penodedig i'ch casglwr gwastraff ar wahân i'w gilydd a ffrydiau gwastraff eraill
Peiriannau treulio ensymau	
Rydyn ni'n casglu brasterau ac olewau o ffrïwyr ac ati. ar gyfer biodanwydd ond mae gennym ni ensymau i dorri i lawr unrhyw frasterau a allai fynd i lawr y draen. A yw'r rhain yn dal i gael eu caniatáu?	Mae’r cod ymarfer yn dweud: Ni ellir defnyddio offer gwaredu gwastraff bwyd (er enghraifft peiriannau mwydo) neu fathau eraill o offer trin gwastraff bwyd (er enghraifft dad-ddyfrio neu dreulwyr ensymau) mewn eiddo annomestig i ollwng gwastraff bwyd neu hylif sy'n deillio o wastraff bwyd i ddraen neu garthffos.
Lle defnyddir treulwyr ensymau, a oes rhestr o gynhyrchion h.y. (Glanhauw Diseimio Ensym Biolegol) y gellir eu defnyddio neu a oes gwaharddiad llwyr ar y systemau hyn?	Gallai gosod trapiau saim helpu i atal saim a gwastraff bwyd tebyg rhag cael ei ollwng yn ddamweiniol i'r garthffos. Mae Adran 111 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ganiatáu i unrhyw fater, a allai ymyrryd â llif rhydd cynnwys y garthffos neu’r draen neu effeithio’n niweidiol ar driniaeth a gwarediad ei gynnwys, basio unrhyw ddraen neu garthffos i lawr. cysylltu â charthffos gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys brasterau, olewau a saim.

Cwestiwn	Ateb
	<p>Ni chaniateir treulwyr ensymau. Ni ellir eu defnyddio mewn eiddo annomestig i ollwng gwastraff bwyd (neu hylif sy'n deillio o wastraff bwyd) i ddraen neu garthffos).</p>
Rheoleiddio	
<p>Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddeddfwriaeth yn yr Alban ar hyn o bryd a'r rheoliad hwn?</p>	<p>Mae'r ddwy set o ddeddfwriaeth yn debyg ond mae ganddynt rai gwahaniaethau allweddol. Er enghraifft, yng Nghymru, mae'r gofynion ar gyfer gwastraff bwyd yn berthnasol i bob busnes ac mae'r gwahaniad ailgylchu wedi'i ddiffinio'n wahanol.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am reoliadau'r Alban yma: Rheoliadau Gwastraff (Yr Alban) Zero Waste Scotland</p>
Gwahanu	
<p>Mae gan wahanu ailgylchu oblygiadau o ran iechyd o ran hylifau'r corff ar hancesi ac ati – ai dyma beth fydd y cynghorau'n ei wneud gyda biniau cyhoeddus, yn eu didoli â llaw?</p>	<p>Nid yw rheoliadau ailgylchu yn y gweithle yn berthnasol i finiau sbwriel awdurdodau lleol.</p>
<p>Os ydych yn rheoli eich gwastraff eich hun e.e. canolfan ailgylchu fewnol a allwch chi gymysgu ailgylchu gan eich bod yn gwybod y bydd ar wahân yn ystod camau diweddarach y broses? e.e. cymysgu'r holl ailgylchu mewn un bag a chael gwastraff cyffredinol mewn bag arall.</p>	<p>Ar gyfer biniau sbwriel, rhaid i bob gweithle gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy mewn biniau sbwriel ar wahân wrth eu casglu. Mae ganddynt yr opsiwn o gael biniau ailgylchu ar wahân, neu roi trefn ar wastraff y biniau sbwriel cyn ei gasglu.</p> <p>Yr unig sbwriel sydd wedi'i eithrio o'r Rheoliadau yw'r sbwriel y mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol amdano fel awdurdodau prifffyrdd ac fel prif awdurdodau sbwriel. Fodd bynnag, er mwyn arddel dull cyson ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae biniau sbwriel wedi'u lleoli. Golyga hyn y gall Awdurdodau Lleol, pan bynnag y bo modd, drefnu i sbwriel gael ei ailgylchu.</p>
Safleoedd mewn canolfannau a reolir	
<p>Os ydych yn fanwerthwr mewn ysbyty a'ch bod yn gwahanu'ch gwastraff, ond yr ysbyty sy'n casglu eich gwastraff, a fydd yn rhaid i'r ysbyty sicrhau bod y gwastraff a gesglir yn cael ei gadw</p>	<p>Mae gwastraff a gynhyrchir gan unrhyw ymgymeriadau trydydd parti ar safle'r ysbyty, er enghraifft siopau papurau newydd neu gaffis neu fasnachfreintiau siopau coffi, yn dod</p>

Cwestiwn	Ateb
<p>ar wahân o hyd – gan ystyried eu hestyniad o ddwy flynedd? Yn aml ni fydd ysbytai yn caniatáu i chi drefnu i gasglwr allanol eich casglu oherwydd rheoli heintiau ac ati.</p>	<p>o dan y gofynion gwahanu a ddaw i rym o 6 Ebrill 2024. Cyfeiriwch at baragraff 5.13 yn y Cod Ymarfer.</p>
<p>Mae gen i gaffi mewn canolfan siopa ac ar hyn o bryd rwy'n cael gwared ar fy ngwastraff bwyd fy hun. A ddylai'r ganolfan gael gwared ar fy ngwastraff bwyd neu a ddylwn i barhau i wneud hyn?</p>	<p>Bydd angen i chi gytuno â'r ysbyty ar y dull gorau o sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau newydd.</p>
<p>O ran canolfannau siopa, os nad yw'r deiliad wedi defnyddio'r cyfleuster a ddarparwyd, pwy sy'n gyfrifol? os caiff eitemau eu rhoi mewn gwastraff cyffredinol mawr ac efallai na chânt eu gweld yn y ffynhonnell heb eu didoli â llaw</p>	<p>Fel deiliad safle, eich cyfrifoldeb chi yw trefnu casgliad addas ar gyfer eich gwastraff. Bydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau busnes unigol a yw hyn yn cael ei wneud drwy'r ganolfan siopa neu a ydych yn trefnu casgliad gyda chasglwr gwastraff yn uniongyrchol.</p>
<p>Rydym yn gweithio'n galed i gyflawni ond mae'n amlwg o'r llwybrau hanfodol ar gyfer prynu biniau ac mae newid gwasanaethau yn golygu na ellir cyflawni 6 Ebrill</p>	<p>Fel deiliad safle, eich cyfrifoldeb chi yw trefnu casgliad addas ar gyfer eich gwastraff. Bydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau busnes unigol a yw hyn yn cael ei wneud drwy'r ganolfan siopa neu a ydych yn trefnu casgliad gyda chasglwr gwastraff yn uniongyrchol.</p>
<p>O ystyried yr amser arweiniol ar gyfer archebu biniau ailgylchu wedi dod i ben (12 -14 wythnos). A fyddwn yn cael ein cosbi o 6 Ebrill ymlaen os oes gennym unedau ar archeb?</p>	<p>Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC – y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru) yn cymryd agwedd gymesur at orfodi'r gyfraith Byddant yn ceisio darparu cyngor ac arweiniad i ddechrau. Byddant yn edrych i weld bod cynlluniau ar waith; biniau wedi'u harchebu a bod gweithleoedd yn cymryd camau priodol i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd.</p>
<p>Gan mai dim ond yn ddiweddar y cyhoeddwyd y manylion, rydym yn awr yn rhuthro i gael unedau ailgylchu cwsmeriaid newydd i'n bwytaï sy'n bodloni'r canllawiau, ond bydd hyn yn cymryd peth amser i'w hadeiladu a'u gosod. A fydd unrhyw ryddid o ran amseroedd?</p>	<p>Ar gyfer digwyddiadau mwy difrifol neu ddiffyg cydymffurfio parhaus, cymerir agwedd fwy cadarn.</p>
<p>Rydym wedi gofyn cwestiynau i'n Hawdurdod Lleol yng Nghymru nad oes ganddynt unrhyw fewnwelediad i'r newid hwn ac ni allant roi cyngor. Mae hyn yn bryder gan fod amser yn prysur fynd heibio</p>	<p>Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ymwybodol o'r newidiadau yn y rheoliadau. Byddem yn awgrymu eich bod yn cysylltu â nhw eto a gofyn am y tîm gwastraff masnachol a ddylai allu dweud wrthych beth yw eu cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth newydd.</p>
<p>Cyfathrebu</p>	

Cwestiwn	Ateb
<p>A fydd yn orfodol defnyddio'r cynlluniau lliw/logo ar gyfer y gwahanol ffrydiau gwastraff a ddarperir gan WRAP? Gallai hyn helpu i greu cysondeb rhwng biniau mewnol ac allanol yn ogystal â biniau cartrefi a busnesau.</p> <p>Cwestiwn dilynol: A fydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn defnyddio'r un cynlluniau lliw/eicon i sicrhau bod hyn yn gyson ar draws y Deyrnas Unedig?</p>	<p>Ni fydd yn orfodol ond drwy ddefnyddio logos a chynllun lliw WRAP byddwch yn defnyddio'r brand cydnabyddedig ledled y Deyrnas Unedig a fydd yn atgyfnerthu negeseuon ac yn darparu cynllun ailgylchu cyson ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.</p>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at WalesRecycles@wrap.org.uk neu CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk.